**CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod rhithwir y Pwyllgor Trwyddedu a gafodd ei gynnal ddydd Mawrth 18 Ebrill 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ffrydio'n fyw ac mae manylion i'w gweld yma.

**Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Stacey | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd G Holmes |
| Y Cynghorydd K Johnson | Y Cynghorydd J Turner |

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms R Hope, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K Trilloe, Rheolwr Diogelu Iechyd a Thrwyddedu
Mr O Williams, Uwch Gyfreithiwr, Materion Ymgyfreitha

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd M Powell |
| Y Cynghorydd A O Rogers | Y Cynghorydd T Williams |

## 44 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 45 DEDDF HAWLIAU DYNOL A'R DDEDDF TROSEDD AC ANHREFN

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n trafod y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

## 46 COFNODION

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2023 yn rhai cywir.

## 47 TRAFOD TRWYDDEDAU A CHOFRESTRIADAU A GYHOEDDWYD O

**DAN DDARPARIAETH PWERAU DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.02.23 - 31.03.23**

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio fanylion trwyddedau a chofrestriadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod rhwng 27 Chwefror 2023 a 31 Mawrth 2023 i'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

## 48 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr eitem nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

## 49 CRYNODEB GORFODI (GAN GYNNWYS DATA APELIADAU/ERLYNIADAU) AR GYFER Y CYFNOD: 27.02.23 - 31.03.23

Cyflwynodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod rhwng 27 Chwefror 2023 a 31 Mawrth 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

## 50 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD: 27.02.23 - 31.03.23

Rhannodd Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio adroddiad â'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod rhwng 27 Chwefror 2023 a 31 Mawrth 2023.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

## 51 MATERION BRYS

Cafodd Aelodau wybod am Ymgynghoriad Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru): Papur Gwyn ac ar ôl trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cynnal cyfarfod Gweithgor ar 9 Mai 2023 i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw sylwadau y bydd modd eu hystyried yn rhan o'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.16pm**

**Y Cynghorydd A Fox**
**Cadeirydd.**